



Unedau Mân Anafiadau

yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Ystrad Fawr ac Ysbyty Aneurin Bevan

Gall oedolion a phlant dros flwydd oed gydag amrywiaeth eang o anafiadau gael triniaeth yn ein Hunedau Mân Anafiadau. Mae'r unedau hyn yn cael eu rhedeg gan dîm profiadol o ymarferwyr nyrsio brys, nyrsys brysbennu a gweithwyr cymorth gofal iechyd medrus iawn sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig. Gallwch fynd i un o'n hunedau os oes gennych:

- Anaf i fraich neu goes, sy'n cynnwys esgyrn wedi torri a datgymalu bysedd traed neu fysedd
- Clwyfau, crafiadau a mân losgiadau
- Anafiadau i'r pen, os na fuoch yn anymwybodol ac nad ydych yn cymryd cyffuriau i deneuo'r gwaed
- Anafiadau i'r wyneb os na fuoch yn anymwybodol
- Mân anafiadau i'r gwddf a'r cefn, ar yr amod eich bod yn gallu symud, nad oes gennych binnau bach yn eich breichiau neu goesau ac nad ydych wedi cwmpo o uchder sy'n fwy na phum gris neu 1m
- Anafiadau i'r llygaid, clust neu drwyn drwyn ac ati
- Anafiadau i'r asennau
- Brathiadau gan bryfed, anifeiliaid neu bobl

Gall Unedau Mân Anafiadau ddarparu'r canlynol hefyd:

- Mynediad i Belydr-X ar gyfer anafiadau
- Cau clwyfau, gan gynnwys pwytho a gludo
- Rhwymau
- Castiau plastr, sblintiau, strapiau a slingiau
- Adleoli mân ddatgymaliadau
- Tynnu cyrff estron
- Golchi llygaid
- Gweinyddu meddyginiaeth i drin yr anaf

Ni all Unedau Mân Anafiadau drin:

- poen yn y frest
- problemau anadlu
- llewygu • strôc
- gorddos a gwenwyno
- damwain gydag anaf i'r abdomen/stumog

- annwyd, peswch, clustiau tost, brechau, tymereddau, llwnc tost • heintiau wrinol, systitis neu broblemau gyda chathetr
- problemau deintyddol • poen yn yr abdomen • coesau, breichiau, cymalau neu gefn poenus (heb eu hachosi gan anaf) • anhwylderau croen gan gynnwys cornwydydd a brechau • clwyfau na achoswyd yn ystod damwain

Os nad ydych yn siŵr a ddylech fynd i Uned Mân Anafiadau ai peidio, ffoniwch 111 i gael cymorth a chyngor.



Helpu Ni Helpu Chi

Dewiswch y lle iawn, y tro cyntaf

Help Us Help You

Choose the right place, first time



Cysylltwch â'ch Fferylllydd

ar gyfer unrhyw salwch neu anhwylderau ysgafn cyffredin

Contact your Pharmacist

for common mild illnesses and ailments



Cysylltwch â'ch Practis Meddyg Teulu

os oes gennych chi salwch neu bryder nad yw'n peryglu bywyd yn uniongyrchol

Contact your GP Practice

if you have an illness or concern that is not immediately life-threatening



Meddyliwch 111 yn Gyntaf

i gael cyngor neu help meddygol os nad ydych yn sicr lle i fynd

Think 111 First

for urgent medical advice or help if you are unsure where to go



Ewch i Uned Mân Anafiadau

Yn Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Ystrad Fawr neu Ysbyty Aneurin Bevan â fân anafiadau, fel esgyrn wedi torri, clwyfau, mân anafiadau i'r pen/gwyneb a brathiadau

Go to a Minor Injuries Unit

at Nevill Hall, the Royal Gwent, Ysbyty Ystrad Fawr or Ysbyty Aneurin Bevan hospitals with minor injuries, such as broken bones, cuts, minor head or face injuries and bites.



Ffoniwch 999, neu ewch i Ysbyty Athrofaol y Faenor

os oes gennych chi SALWCH SY'N BYGWTH BYWYD neu ANAF DIFRIFOL fel strôc bosib, poenau difrifol yn y frest neu'r stomog, trawiad neu anaf sylweddol

Call 999, or go to The Grange University Hospital

if you have a LIFE-THREATENING ILLNESS or SERIOUS INJURY such as suspected stroke, severe chest or stomach pains, seizure or significant injury

